**Polisi eithriadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

---

| | | |
|---|---|---|
| Statws y ddogfen | Terfynol | |
| Fersiwn: | 4.1 | |
| Cymeradwywyd gan: | Steve Brooker, Cyfarwyddwr Strategaeth Rheoleiddio | |
| Dyddiad cymeradwyo: | 9 Ebrill 2024 | |
| Ar waith o: | 9 Ebrill 2024 | |
| Perchennog: | Steve Brooker, Cyfarwyddwr Strategaeth Rheoleiddio | |
| Awdur: | Allison Ella Ling, Rheolwr Datblygu DPP | |
| Deddfwriaeth berthnasol: | Rheolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol Deddf Optegwyr 1989 (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) 2021 | |
| Polisïau cysylltiedig: | Amh | |
| Asesiad o'r effaith: | Cynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 | |
| Cwblhau'r asesiad o'r effaith: | Mawrth 2024 | |
| Adolygiad o'r asesiad o'r effaith: | Mawrth 2027 | |
| **Dyddiad yr adolygiad polisi nesaf:** | Ionawr 2027 | |
| Lleoliad - Gwefan: | Rydym yn darparu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gyfer cofrestreion, cleifion, y cyhoedd, y cyfryngau a'r sector optegol. I ddod o hyd i'r cyhoeddiad rydych chi'n chwilio amdano, defnyddiwch ein hadnodd chwilio sydd ar gael ar ein gwefan cyhoeddiadau'r Cyngor Optegol Cyffredinol<br><br>Os ydych chi'n defnyddio technoleg gynorthwyol (fel darllenydd sgrin) ac angen fersiwn o unrhyw gyhoeddiad ar y wefan hon mewn fformat mwy hygyrch, **anfonwch e-bost at communications@optical.org**. | |
| Diweddariadau a wnaed: | ***DYDDIAD*** | Newidiadau sy'n adlewyrchu teitl y cynllun o Addysg a Hyfforddiant Parhaus (CET) i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).<br>Cyfeiriad at covid-19 o dan baragraff 4.2.<br>Ychwanegu paragraff 4.3.3.<br>Ychwanegu paragraff 6.5. |

**Cynnwys**

1. Datganiad....3

2. Pwrpas.... 3

3. Cwmpas.... 3

4. Egwyddorion i’w dilyn .... 4

5. Enghreifftiau o benderfyniadau o gylchoedd blaenorol ....5

6. Y broses ar gyfer cyflwyno cais.... 7

7. Proses y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer ystyried a hysbysu ....7

8. Apêl....8

9. Tryloywder.... 8

10. Addasiadau rhesymol.... 8

11. Atodiad....9

Atodiad: Ffurflen gais ar gyfer eithriadau CPD .... 9

## 1. Datganiad

1.1 Fel rheoleiddiwr y DU ar gyfer optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu'r cyhoedd. Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Statudol yw'r mecanwaith rydym yn ei ddefnyddio i sicrhau'r cyhoedd bod sgiliau a gwybodaeth ein cofrestreion yn dal i fod yn gyfredol a'u bod yn dal i fod yn addas i ymarfer.

1.2 Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer DPP ("gofynion DPP") wedi'u cynnwys yn Neddf Optegwyr 1989 a Rheolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) 2021, a elwir o hyn ymlaen yn "y Ddeddf" a "Rheolau'r DPP" yn y drefn honno.

1.3 Mae'r Rheolau DPP yn sefydlu'r gofynion sylfaenol ar gyfer hyfforddiant parhaus. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cofrestrydd ddileu cofrestreion nad ydynt yn bodloni'r gofynion DPP sylfaenol statudol[1].

1.4 Rydym yn cydnabod na fydd yn gymesur bob amser i ddileu cofrestrai nad yw'n bodloni'r gofynion DPP sylfaenol statudol, ac mae'r polisi hwn yn nodi disgresiwn y Cofrestrydd i gadw cofrestreion o'r fath mewn amgylchiadau lle na fyddai hyn yn peryglu diogelwch y cyhoedd nac yn tanseilio budd y cyhoedd.

1.5 Mae'n rhaid i bob cofrestrai wneud pob ymdrech o hyd i gwblhau eu gofynion DPP.

## 2. Pwrpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion y bydd y Cofrestrydd yn eu defnyddio wrth benderfynu a all cofrestrai aros ar y gofrestr heb fod wedi bodloni'r gofynion DPP, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd deg a chyson.

2.2 Mae hefyd yn nodi'r broses i gofrestreion o'r fath ofyn am gael eu cadw ar y gofrestr.

## 3. Cwmpas

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cofrestrai sydd wedi cymhwyso'n llawn ac nad ydynt wedi llwyddo i fodloni eu gofynion DPP, ond sy'n gallu dangos, dan amgylchiadau eithriadol, na fyddai eu cadw ar y gofrestr yn peryglu diogelwch y cyhoedd nac yn tanseilio budd y cyhoedd.

1 O dan reol 25 Rheolau DPP, gall y Cofrestrydd ddileu neu wrthod cadw (a) enw cofrestrai neu (b) manylion arbenigedd sydd wedi'i gofrestru, os yw'r cofrestrai wedi methu â bodloni gofynion DPP o dan y Rheolau.

4.1 Mae diogelu'r cyhoedd yn hollbwysig ac yn bwysicach na chaledi unrhyw gofrestrai unigol. Bydd y Cofrestrydd yn ystyried pob cais yng ngoleuni amcan cyffredinol y Cyngor Optegol Cyffredinol, sef diogelu'r cyhoedd.

4.2 Yn gyntaf, bydd y Cofrestrydd yn ystyried rhesymau'r cofrestrai dros beidio â bodloni'r gofynion DPP ac yn ystyried a wnaeth y cofrestrai gymryd pob cam rhesymol i fodloni ei ofynion DPP ond nad oedd yn gallu cwblhau'r rhain oherwydd amgylchiadau eithriadol y tu hwnt i'w reolaeth (er enghraifft, cyfnod sylweddol o absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu, neu salwch difrifol y cofrestrai ei hun neu aelod agos o'r teulu).

4.3 Os yw'r Cofrestrydd yn fodlon bod y cofrestrai wedi gallu dangos amgylchiadau eithriadol, bydd yn penderfynu a ellir cynnal diogelwch y cyhoedd drwy ei gadw ar y gofrestr, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

4.3.1 maint a natur y diffyg o ran DPP, er enghraifft, a yw DPP wedi'i gyflawni ym mhob maes, a yw gofynion rhyngweithiol wedi'u bodloni, a yw adolygiad gan gymheiriaid wedi'i gwblhau (os yw'n berthnasol) ac a yw gofynion arbenigol wedi'u bodloni.

4.3.2 faint o DPP sydd wedi'i wneud cyn, yn ystod ac ar ôl y cylch presennol, er enghraifft, a roddwyd sylw i'r diffyg yn fuan ar ôl diwedd y cylch.

4.3.3 a yw'r cofrestrai wedi cwblhau cynllun datblygu personol (CDP) a'r ymarfer myfyriol yn seiliedig ar ei gynllun. Ni fyddai methu â dangos tystiolaeth bod y gofynion hyn wedi'u cwblhau'n foddhaol ynddo'i hun yn sail dros dynnu rhywun oddi ar y gofrestr, ond byddai'n cael ei ystyried yn un o'r ffactorau lliniarol neu waethygol ochr yn ochr â'n hystyriaeth ni o ddiffyg yn y gofynion.

4.3.4 ers faint o amser a pha mor ddiweddar y mae'r cofrestrai wedi bod yn ymarfer, er enghraifft, os yw'r cofrestrai yn ymarferydd profiadol sy'n cynnal ei sgiliau ar hyn o bryd.

4.3.5 unrhyw gamau eraill a gymerwyd i gynnal ei sgiliau, er enghraifft, ar ôl cwblhau addysg bellach a/neu addysg uwch berthnasol yn ddiweddar neu hyfforddiant heb ei gymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;

4.3.6 unrhyw gynlluniau i fynd yn ôl ar y trywydd iawn, er enghraifft, trefnu i ymgymryd â DPP yn fuan ar ôl diwedd y cylch.

4.3.7 unrhyw bryderon eraill ynghylch addasrwydd i ymarfer, er enghraifft, a yw iechyd presennol yr ymgeisydd yn amharu ar ei allu i ymarfer yn ddiogel.

4.3.8 unrhyw ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys a yw'r ymgeisydd wedi cwblhau DPP sy'n berthnasol i'w anghenion dysgu penodol ei hun a chwmpas ymarfer.

4.4 Rhaid i geisiadau o dan y polisi hwn gael eu hategu gan dystiolaeth briodol i ddangos amgylchiadau eithriadol sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 4.2.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth yn cynnwys llythyr cyflogwr yn cadarnhau hyd absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu, llythyr gan feddyg (fel llythyr rhyddhau o'r ysbyty) mewn ceisiadau sy'n ymwneud â salwch difrifol y cofrestrai ei hun neu aelod agos o'i deulu, neu dystysgrif marwolaeth mewn ceisiadau sy'n ymwneud â marwolaeth aelod agos o'r teulu.

4.5 Wrth ystyried ceisiadau sy'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu, bydd y Cofrestrydd yn ystyried y ffactorau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 4.3, yn ogystal â hyd cyffredinol absenoldeb o'r fath a nifer y cyfnodau o absenoldeb o'r fath a gymerir drwy gydol cylch DPP. Fel rhan o'n hystyriaeth o'r cais, byddem yn disgwyl i'r cofrestreion sydd ar gyfnod absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu fod wedi cwblhau'r hyn sy'n cyfateb i o leiaf un pwynt am bob mis roedden nhw wedi bod ar y gofrestr yn ystod y cylch ac nad oeddent ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu, oni bai eu bod wedi bod yn dioddef o salwch er enghraifft.

4.6 Mae enghreifftiau o benderfyniadau ynghylch ceisiadau o gylchoedd blaenorol ar gael yn yr adran nesaf.

## 5. Enghreifftiau o benderfyniadau o gylchoedd blaenorol

5.1 Enghreifftiau yn unig yw'r penderfyniadau sydd yn yr adran hon. Bydd pob cais yn amrywio mewn amgylchiadau unigol, a byddan nhw'n cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau eu hunain.

### *Enghreifftiau o geisiadau rydym wedi'u derbyn o dan y polisi hwn*

*Enghraifft 1*

Roedd gan y cofrestrai un pwynt cyffredinol heb ei gyflawni. Yn ystod y cylch roedd angen i'r cofrestrai ddarparu tystiolaeth mewn achos llys emosiynol iawn a oedd yn gofyn am gofnodi a thrafod atgofion anodd eto. Darparwyd tystiolaeth gan y llys ynghyd â chadarnhad o ymweliadau meddygon.

Penderfynwyd derbyn y cais hwn ar sail y nifer isel o bwyntiau a oedd heb eu cyflawni.

*Enghraifft 2*

Roedd gan y cofrestrai ddau bwynt cyffredinol heb eu cyflawni ac un pwynt rhyngweithiol heb ei gyflawni. Yn ystod misoedd olaf y cylch, bu farw aelod agos o deulu'r cofrestrai ar ôl cyfnod o salwch.

Cyflwynwyd tystiolaeth o'r brofedigaeth, a phenderfynwyd y dylid derbyn y cais hwn, gan fod y cofrestrai wedi llwyddo i gyflawni'n briodol yn y gorffennol, ynghyd â'r lefel isel o bwyntiau oedd ar goll.

*Enghraifft 3*

Roedd gan y cofrestrai bedwar pwynt cyffredinol heb eu cyflawni. Yn anffodus, roedd y cofrestrai wedi dioddef o iselder drwy gydol y cylch, a

chafodd hyn ei gefnogi gan dystiolaeth feddygol lle roedd angen aros yn yr ysbyty am bythefnos.

Penderfynwyd y dylid derbyn y cais hwn, gan fod y pwyntiau coll yn cael eu hystyried yn rhai isel.

***Enghreifftiau o geisiadau rydym wedi'u gwrthod o dan y polisi hwn***

*Enghraifft 4*

Roedd yn ymddangos bod gan y cofrestrai reswm derbyniol dros y cais am amgylchiadau eithriadol, ond nid oedd wedi darparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol, hyd yn oed ar ôl cais pellach am dystiolaeth.

Penderfynwyd bod angen gwrthod y cais hwn yn awtomatig gan fod y polisi eithriadau yn nodi'r gofyniad am dystiolaeth ddogfennol. Yn ogystal â'r pwyntiau coll (17 cyffredinol, 10 arbenigedd, 9 rhyngweithiol, 5 cymhwysedd (meysydd erbyn hyn) a dim adolygiad gan gymheiriaid), roedd hyn yn ormod o lawer er mwyn diogelu'r cyhoedd.

*Enghraifft 5*

Nid oedd y cofrestrai yn bodloni unrhyw un o'i ofynion o fewn y cylch. Y rheswm a roddwyd dros y cais am amgylchiadau eithriadol oedd bod y cofrestrai yn byw ac yn gweithio dramor.

Mae'n ddyletswydd ar y cofrestrai i gyflawni'r holl ofynion CET (DPP erbyn hyn) angenrheidiol i aros ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol p'un a yw'n byw dramor neu yn y DU.

*Enghraifft 6*

Roedd y cofrestrai wedi bodloni'r holl ofynion cyffredinol ond roedd 14 pwynt arbenigol a phedwar cymhwysedd (meysydd erbyn hyn) ar goll. Nid oedd y cofrestrai yn rhagnodi mwyach ac roedd wedi cwblhau'r cwrs dim ond er mwyn cadw ei wybodaeth.

Penderfynwyd y gallai'r cofrestrai aros ar y gofrestr gyffredinol, ond byddai angen ei dynnu oddi ar y gofrestr arbenigedd gan fod y gofynion coll ar gyfer arbenigedd yn ormod o lawer o ran diogelwch y cyhoedd, pe bai'r cofrestrai wedi penderfynu rhagnodi eto.

## 6. Y broses ar gyfer cyflwyno cais

6.1 Pan fydd cofrestrai'n rhagweld na fydd yn gallu bodloni'r gofynion DPP, gall gysylltu â thîm DPP y Cyngor Optegol Cyffredinol am gyngor, hyd yn oed os

yw hyn yn gynnar yn y cylch. Rhaid iddo barhau i wneud popeth o fewn ei allu i fodloni ei ofynion DPP.

6.2 Ar ddiwedd y cylch, byddwn yn cysylltu â chofrestreion nad ydynt wedi bodloni eu gofynion DPP ac yn eu cyfeirio at ein polisi eithriadau DPP fel eu bod yn cael cyfle i wneud cais bryd hynny.

6.3 I wneud cais am amgylchiadau eithriadol, ewch i'n gwefan i weld [amgylchiadau eithriadol DPP] a dilynwch y canllawiau a ddarperir. Rhaid gwneud ceisiadau o fewn yr amserlen a bennir a darparu'r dystiolaeth ddogfennol briodol.

6.4 Dylai'r cofrestrai roi gwybod i ni os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol er mwyn gwneud y cais neu ei ystyried drwy anfon e-bost at cpdexceptional@optical.org neu drwy'r post i'r Cyngor Optegol Cyffredinol, Adran DPP, 10 Old Bailey, Llundain, EC4M 7NG.

6.5 Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.

## 7. Proses y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer ystyried a hysbysu

7.1 Byddwn yn ceisio cydnabod ceisiadau o fewn tri diwrnod gwaith i'w cael.

7.2 Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Cofrestrydd **ar ôl** diwedd y cylch DPP. Byddwn yn ceisio ystyried ceisiadau o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau ar gyfer gwneud y ceisiadau hyn ac, ar yr amod bod digon o dystiolaeth, bydd y penderfyniad yn cael ei roi drwy e-bost lle bo'n bosibl gwneud hynny.

7.3 Os nad yw'n bosibl dod i benderfyniad ar sail y dystiolaeth a roddwyd, bydd y Cofrestrydd yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol cyn gynted ag y bydd y cais wedi cael ei ystyried. Ar ôl derbyn y dystiolaeth hon, bydd y cais yn cael ei ystyried a byddwn yn ceisio hysbysu ymgeiswyr o'n penderfyniad drwy e-bost o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y dystiolaeth ychwanegol.

7.4 Bydd tystiolaeth ddogfennol a roddir i ni i gefnogi cais a wneir o dan y polisi hwn, yn cael ei chadw'n ddiogel a dim ond y rheini sy'n prosesu cais fydd yn ei gweld. Bydd tystiolaeth wreiddiol yn cael ei dychwelyd i'r cofrestrai ar gais. Bydd yr holl dystiolaeth nad yw'n cael ei dychwelyd yn cael ei chadw yn unol â'n hamserlen cadw a'i dinistrio ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, ar yr amod nad oes apêl sy'n ymwneud â'r penderfyniad wedi'i gwneud.

## 8. Apêl

8.1 Os bydd y Cofrestrydd, ar ôl ystyried cais o dan y polisi hwn, yn gwrthod cadw enw neu arbenigedd cofrestrai sydd wedi methu â chydymffurfio â'r Rheolau DPP, gall y cofrestrai apelio dan atodlen 1A y Ddeddf.

8.2 Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn ystyried yr apêl yn unol â'r broses a nodir yn y Rheolau Apeliadau Cofrestru[2].

## 9. Tryloywder

9.1 Ar ddiwedd y cylch byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am faint o gofrestreion nad oeddent yn bodloni eu gofynion DPP. Bydd papurau ein Cyngor yn rhoi gwybodaeth am faint o achosion rydym wedi'u hystyried o dan y polisi hwn, a byddwn wedyn yn cyhoeddi gwybodaeth am faint o gofrestreion a gafodd eu tynnu oddi ar y gofrestr.

## 10. Addasiadau rhesymol

10.1 Mae'r ffurflen gais yn gwahodd cofrestreion, sydd angen addasiadau rhesymol wrth wneud eu cais, i gysylltu â'r tîm DPP.

## 11. Atodiad

## Atodiad: Ffurflen gais ar gyfer eithriadau DPP

| | |
|---|---|
| **Enw (fel y dangosir ar y gofrestr)** | |
| **Rhif cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol** | |
| **Rhif ffôn cyswllt** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cais** | |
| **Dyddiad(au) yr amgylchiad(au) a achosodd y diffyg cydymffurfio â DPP** | |
| **Dyddiad(au) yn y cylch lle rydych chi wedi bod yn ymarfer** | |
| **Yr amser a dreuliwyd yn ymarfer** | |

**Crynodeb o'r diffyg o ran DPP**

| | |
|---|---|
| **Nifer y pwyntiau DPP cyffredinol heb eu cyflawni** | |
| **Nifer y pwyntiau DPP arbenigedd heb eu cyflawni** | |
| **Nifer y pwyntiau DPP rhyngweithiol heb eu cyflawni** | |
| **Adolygiad gan gymheiriaid heb ei gyflawni** | |
| **Cynllun datblygu personol heb ei gyflawni** | |
| **Ymarfer myfyriol heb ei gyflawni** | |
| **Nifer y meysydd heb eu cyflawni** | |
| **Ydych chi eisoes wedi gwneud iawn am y diffyg? Rhowch fanylion.** | |

| |
|---|
| **Manylion y rhesymau dros beidio â bodloni gofynion DPP** |

| |
|---|
| |
| **Disgrifiwch y cynlluniau oedd gennych i gwblhau'r gofynion DPP a pham nad oeddech yn gallu gwneud hyn** |
| |

| **Rhestrwch y dystiolaeth ddogfennol sy’n cael ei darparu i gefnogi eich cais.** Gall enghreifftiau o dystiolaeth ddogfennol fod yn llythyr gan ymarferydd meddygol neu dystiolaeth o absenoldeb o’r gwaith oherwydd absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu. Bydd yr holl dystiolaeth ddogfennol yn cael ei chadw’n ddiogel a dim ond y rheini sy’n prosesu eich cais fydd yn ei gweld. Bydd tystiolaeth ddogfennol ategol yn cael ei dinistrio yn unol â’n polisi cadw ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, ar yr amod nad oes apêl yn ymwneud â’r penderfyniad wedi cael ei gwneud. Rhowch wybod i ni yn eich cais os hoffech i ni ddychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol. |
|---|
| |
| **Unrhyw gamau eraill a gymerwyd i gynnal sgiliau, er enghraifft, cwblhau addysg bellach/addysg uwch berthnasol yn ddiweddar neu hyfforddiant heb ei gymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol** |
| |
| **Cynlluniau i fynd yn ôl ar y trywydd iawn (a allai gynnwys cyflwyno cynllun datblygu personol (CDP))** |
| |

**Datganiad**

| |
|---|
| Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen gais hon yn wir. Rwy'n deall y byddaf yn torri safonau'r Cyngor Optegol Cyffredinol os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.<br><br>Llofnod:________________________________ Dyddiad:________<br><br>*Os ydych chi'n dychwelyd y ffurflen hon drwy e-bost, gallwch naill ai deipio eich enw neu ludo llofnod electronig. Rhaid i chi ei hanfon o gyfeiriad e-bost rydych chi wedi'i roi o'r blaen i'n hadran Gofrestru fel eich cyfeiriad cyswllt. |

Atodiad: Ffurflen gais ar gyfer eithriadau DPP

[2] Mae Rheolau Cyngor Optegol Cyffredinol (Apeliadau Cofrestru) 2005 ar gael ar ein gwefan

*Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rheolydd data sydd wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rydym yn defnyddio data personol i gefnogi ein gwaith fel rheoleiddiwr y proffesiynau optegol yn y DU. Efallai y byddwn yn prosesu eich data personol at ddibenion gan gynnwys diweddaru'r gofrestr, gweinyddu a chynnal cofrestriadau, prosesu cwynion a llunio ystadegau, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.*